

# Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Woods, Bwrdd  
Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Dyddiad yr arolygiad: 24 Hydref 2023

Dyddiad cyhoeddi: 24 Ionawr 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym .....	9
	• Ansawdd Profiad y Claf .....	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....	15
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	20
4.	Y camau nesaf .....	24
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	25
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith .....	26
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	27

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Woods, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 24 Hydref 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Uwch-arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 21 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Practis Deintyddol Woods yn gweithio'n galed i ddarparu gwasanaeth gofalggar, proffesiynol a chadarnhaol i'w gleifion. Roedd yr ymatebion a gafwyd drwy holiaduron AGIC yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda'r ymatebwyr yn dweud bod y gwasanaeth yn 'dda' neu'n 'dda iawn'.

Roedd amrywiaeth o wybodaeth ar gael i'r cleifion i'w helpu i wella iechyd a hylendid eu ceg. Fodd bynnag, dim ond yn Saesneg roedd y deunydd hwn ar gael.

Gwelsom fod hawliau cleifion yn cael eu cynnal a bod y practis yn cynnig mynediad cyfartal i bawb. Roedd mynediad da i'r cyfleusterau i'r cleifion hynny yr oedd angen iddynt ddefnyddio cadair olwyn neu'r rhai hynny nad oedd eu symudedd cystal. Roedd mynediad drwy ramp, ardal dderbynfa fawr, toiled ac ystafell drin hygyrch wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod. Roedd ardal i blant mewn un ystafell aros hefyd.

Roedd yn amlwg bod y practis yn ymrwymedig i gynnal preifatrwydd y cleifion. Fodd bynnag, roedd ffenestr y brif dderbynfa yn fawr ond nid oedd gwydr barugog ynddi ac nid oedd sgrin breifatrwydd na llen i atal pobl a oedd yn mynd heibio rhag gallu gweld y cleifion yn yr ardal aros ar y llawr gwaelod. Yn ein barn ni, nid oedd hyn yn gwarchod preifatrwydd ac urddas pob claf.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Ystyried anghenion iaith claf wrth ddarparu gwybodaeth ysgrifenedig neu daflenni
- Darparu 'Cynnig Rhagweithiol' effeithiol i gleifion
- Gosod gwydr neu sgrin breifatrwydd yn y dderbynfa er mwyn gwarchod preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd cyfrinachedd yn cael ei barchu'n effeithiol
- Roedd cleifion yn cael eu gweld yn brydlon
- Roedd cydraddoldeb a hawliau'r cleifion yn cael eu cynnal.

### Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, gwelsom fod y tîm o staff yn ymroddedig ac yn ymrwymedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion mewn amgylchedd a oedd yn lân ac yn daclus, heb unrhyw beryglon amlwg. Roedd pob deintyddfa o faint da ac yn cynnwys digon o offer.

Gwelwyd bod yr holl brosesau atal a rheoli heintiau a dihalogi o safon dderbyniol. Roedd y meddyginiaethau ar y safle yn cael eu rheoli'n effeithiol a gwelsom fod polisïau rheoli meddyginiaethau cynhwysfawr ar waith. Roedd yr holl feddyginiaethau brys yn cael eu storio'n gywir ac yn cael eu gwirio'n drwyadl yn rheolaidd.

Gwelwyd bod cofnodion meddygol y cleifion o safon dda ar y cyfan. Fodd bynnag, er i ni nodi meysydd o ymarfer da, gwnaethom nodi nifer o faterion mewn perthynas â chofnodi dewis iaith, y ffaith nad oedd canfyddiadau clinigol radiograffau bob amser yn cael eu cofnodi ac nad oedd opsiynau triniaeth bob amser yn cael eu trafod.

Roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ar gyfer derbyn ac asesu cleifion, rhoi diagnosis iddynt a'u trin.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cynnal asesiadau risg tân gan ddefnyddio corff proffesiynol neu adnodd asesu
- Arddangos y siart lif ar ddiogelu mewn mannau amlwg i'r staff
- Arddangos risgiau a manteision cysylltiadau mewn man amlwg
- Sicrhau y caiff cofnodion cleifion cynhwysfawr eu cadw.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd safonau diogelwch lleol ar gyfer triniaethau mewnwithiol yn cael eu dilyn
- Roedd cyfarpar priodol ar gael yn yr ystafelloedd clinigol i sicrhau diogelwch y cleifion
- Polisïau a gweithdrefnau diogelu cynhwysfawr
- Cydymffurfiaeth â gweithdrefnau rheoli heintiau.

## **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth**

Crynodeb cyffredinol:

Roedd trefniadau arweinyddiaeth a rheolaeth ym Mhractis Deintyddol Woods yn gadarn. Gwelsom fod gan y staff linellau adrodd clir a bod gan y practis dîm rheoli ymroddedig â gweledigaeth glir ar gyfer dyfodol y practis. Roedd y tîm o staff yn cydweithio'n dda iawn â'i gilydd ac yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'w cleifion.

Roedd tystiolaeth bod proses sefydlu gynhwysfawr ar waith, gyda chydymffurfiaeth dda â gweithdrefnau recriwtio staff.

Roedd cyfleoedd hyfforddiant ar gael i'r staff er mwyn iddynt gyflawni eu rhwymedigaethau proffesiynol a chamu ymlaen yn eu gyrfa. Roedd cydymffurfiaeth dda iawn o ran hyfforddiant gorfodol ac arfarniadau blynyddol. Roedd cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal â'r arweinwyr tîm perthnasol. Roedd cyfarfodydd practis cyfan yn cael eu cynnal yn rheolaidd hefyd ac roedd adborth yn cael ei roi i'r rhai hynny a oedd yn absennol ar ffurf cofnodion.

Roedd y cyfleusterau i'r staff yn ddigonol ond roedd angen diweddarau rhai ardaloedd. Dylid ystyried gosod lloriau newydd yn yr ardaloedd i staff yn unig. Roedd y defnydd a oedd yn gorchuddio'r llawr yn rhaflio ac wedi treulio mewn manau.

Roedd yn ofynnol hefyd i'r practis arddangos canlyniadau adborth gan gleifion gan ddefnyddio bwrdd 'Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni' yn ystafell aros y cleifion er mwyn dangos y newidiadau a wnaed i'r practis o ganlyniad i syniadau ac awgrymiadau gan gleifion.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymgymryd â hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd
- Sicrhau bod cleifion yn deall sut y caiff cwynion eu datrys
- Defnyddio bwrdd 'Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni' i ddangos canlyniadau adborth.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir
- Rhaglen sefydlu gynhwysfawr
- Cydymffurfiaeth dda â hyfforddiant gorfodol ac arfarniadau blynyddol
- Gweithgareddau gwella ansawdd effeithiol.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).



## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Ansawdd Profiad y Claf

#### Adborth gan Gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Cawsom gyfanswm o 21 o holiaduron wedi'u cwblhau.

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

*"Mae'r meddygon proffesiynol parhaol yn cynnig gwasanaeth effeithiol iawn, ond mae'r meddygon a gaiff eu penodi dros dro yn cynnig gwasanaeth cymysg (2016 ac yn ddiweddarach)."*

*"Rwy'n dod o'r tu allan i'r ardal ac roedd angen apwyntiad brys arna i. Gwnaethant allu fy ngweld, er bod practisau eraill wedi fy ngwrthod gan ei bod yn gyfnod a oedd yn dilyn gŵyl y banc. Gwnaethant holi am fy anghenion a'm hanes, gan sicrhau eu bod yn eu deall yn llawn, gan gynnwys y ffaith fy mod i'n glaf nerfus. Roedd y deintydd a welais yn ymwybodol o hyn, a rhoddodd dawlwch meddwl i mi gan esbonio pob cam roedd yn ei gymryd. Gwnaeth y practis argraff dda iawn arnaf!"*

*"Staff ardderchog yn y dderbynfa."*

*"Mae practis deintyddol Woods yn cael ei redeg yn arbennig o dda. Mae'r staff yn gyfeillgar ac yn gwrtais."*

*"Rwy'n teimlo bod fy neintydd bob amser yn rhuthro. Nid oedd un deintydd fel petai'n gyfforddus, a wnaeth i mi deimlo'n anghysurus. Cefais fy nhrosglwyddo i ddeintydd arall a oedd yn llawer gwell."*

Gwnaethom ofyn beth y gellid ei wneud i wella'r gwasanaeth. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

*"Mae'n dda iawn fel y mae."*

*“Bod yn fwy cyfeillgar.”*

*“Roeddwn yn hapus iawn â'r gwasanaeth a ddarparwyd gan y deintydd.”*

*“Roedd y gwasanaeth yn wych.”*

Rydym yn argymhell y dylai'r darparwr cofrestredig ystyried y sylwadau a gafwyd gan gleifion er mwyn helpu i wella profiad y claf.

## **Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn**

### **Hybu Iechyd**

Gwelsom fod amrywiaeth o ddeunydd hybu iechyd ar gael yn ardal y dderbynfa ac yn yr ardaloedd aros ar bob llawr. Nid oedd unrhyw ddeunydd hybu iechyd dwyieithog ar gael, ond roedd arwydd yn rhoi gwybod i'r cleifion am hyn. Cawsom wybod fod y daflen wybodaeth i gleifion, y polisi cwynion a ffioedd y GIG ar gael yn Gymraeg. Dywedwyd wrthym y byddai'r cleifion yn cael cyngor hybu iechyd perthnasol wrth gael eu gweld gan y gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol yn y practis.

**Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried ehangu'r dewis o wybodaeth sydd ar gael, gan roi sylw i anghenion cyfathrebu a dymuniadau'r cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth.**

Cadarnhaodd pob claf ond un a gwblhaodd holiadur AGIC fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach. Nododd pob un o'r cleifion fod y tîm deintyddol yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd â thriniaethau.

Roedd arwyddion yn cael eu harddangos a oedd yn rhoi gwybod i gleifion, ymwelwyr a staff nad oedd smygu yn cael ei ganiatáu ar y safle. Roedd hyn yn dangos bod y practis yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynglŷn â mangreoedd di-fwg.

Gwelsom fod manylion cyswllt mewn argyfwng yn cael eu darparu yn y datganiad o ddiben, ar y wefan ac ar y neges ffôn wedi'i recordio ymlaen llaw. Roedd y manylion cyswllt hefyd i'w gweld y tu allan i'r adeilad.

### **Gofal Urddasol a Pharchus**

Roedd yn amlwg bod y practis yn ymrwymedig i gynnal preifatrwydd y cleifion. Roedd ardal derbynfa fawr ar gael ac roedd y seddau wedi'u gosod ar wahân i'r brif ddesg er mwyn cynnig rhywfaint o breifatrwydd. Roedd y staff yn ystyriol o'r angen i gynnal cyfrinachedd wrth siarad â chleifion wyneb yn wyneb a thros y ffôn. Dywedwyd wrthym pe bai angen i glaf siarad ag aelod o'r staff yn breifat, y gallai deintyddfa wag neu swyddfa rheolwr y practis gael ei defnyddio i hwyluso hynny.

Roedd gan bob deintyddfa ddrysau soled a oedd yn cael eu cadw ar gau pan oedd yr ystafell yn cael ei defnyddio ac roedd gwydr barugog yn ffenestri'r deintyddfeydd neu roedd bleinds preifatrwydd wedi'u gosod arnynt er mwyn gwarchod urddas y cleifion. Gwnaethom nodi bod ffenestr y brif dderbynfa yn fawr ond nad oedd gwydr barugog ynddi ac nad oedd sgrin breifatrwydd na llen i atal pobl a oedd yn mynd heibio rhag gallu gweld y cleifion yn yr ardal aros ar y llawr gwaelod.

**Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff preifatrwydd ac urddas eu gwarchod cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol. Rhaid ystyried gosod gwydr preifatrwydd yn ffenestri ardal y dderbynfa yn unol ag argymhellion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.**

Gwelsom y staff yn rhoi gofal mewn ffordd barchus a gwelwyd bod y staff yn rhyngweithio â'r cleifion mewn ffordd garedig a'u bod yn barod i helpu. Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y staff yn eu trin ag urddas a pharch.

### **Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn**

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y tîm deintyddol bob amser yn esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud drwy gydol yr apwyntiad. Roeddent yn teimlo bod y tîm yn gwrando arnynt ac yn ateb pob un o'u cwestiynau. Roedd pob un o'r cleifion yn teimlo bod opsiynau triniaeth yn cael eu hesbonio iddynt yn ystod eu hapwyntiad mewn ffordd y gallent ei deall ac roedd y rhan fwyaf (18/21) yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal, gan eu galluogi felly i wneud dewis deallus am eu gofal a'u triniaethau. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

*“Roedd yn gyfeillgar, braf a hamddenol ac roeddwn yn cael dewis bob tro.”*

*“Mae'r deintyddion a'r hylenwyr bob amser yn esbonio'r opsiynau triniaeth. Byddwn yn argymhell y practis gan fod y gwasanaeth yn wych.”*

## **Amserol**

### **Gofal Amserol**

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod gofal deintyddol yn cael ei roi mewn modd amserol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gwneud pob ymdrech i sicrhau nad yw cleifion yn aros mwy na 10 munud. Pe byddai unrhyw achosion hysbys o oedi, byddai'r cleifion yn cael gwybod am hynny pan fyddent yn cyrraedd ac yn cofrestru â staff y dderbynfa. Lle byddai achosion o oedi yn digwydd ar ôl iddynt gofrestru, byddai'r staff yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r claf yn unol â hynny.

Gwelsom y system trefnu apwyntiadau ar-lein i gleifion newydd ac roedd neges destun neu e-bost yn cynnwys dolen yn cael ei hanfon at gleifion cofrestredig i'w hatgoffa i drefnu apwyntiadau.

Roedd yr ymatebion o'r holiaduron a gwblhawyd yn nodi ei bod hi'n 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' cael apwyntiad. Fodd bynnag, atebodd un nad oedd hi'n hawdd o gwbl cael apwyntiad.

Dywedodd y staff wrthym fod apwyntiadau brys ar gael bob dydd, ond fod y slotiau hynny'n gyfyngedig. Byddai cleifion yn cael eu brysbennu a'u blaenoriaethu'n briodol. Lle roedd cleifion yn cysylltu â'r ddeintyddfa ar y penwythnos, byddai galwadau yn cael eu dargyfeirio i ddeintydd brys a oedd wedi'i benodi ar gyfer yr ardal.

Dywedodd ychydig dros ddwy ran o dair o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur (16/21) eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Gwelsom fod gwybodaeth am y gwasanaeth y tu allan i oriau ar gael i'r cleifion mewn amrywiaeth o leoedd.

Roedd system ar waith i gleifion drefnu slot amser cyfleus. Roedd y system a oedd ar waith i dynnu sylw at gleifion â phroblemau symudedd yr oedd angen deintyddfa ar y llawr gwaelod arnynt yn arfer canmoladwy. Os mai dim ond ar ddiwrnod penodol roedd deintydd dynodedig y claf yn gweithio yn y ddeintyddfa ar y llawr gwaelod, byddai'r system yn hysbysu'r unigolyn sy'n trefnu'r apwyntiad fod yr apwyntiad yn cael ei wneud ar ddiwrnod anaddas, ac felly'n rhoi'r dewis iddo drefnu diwrnod arall.

## Teg

### Cyfathrebu ac iaith

Dywedwyd wrthym pe bai claf yn dymuno cyfathrebu mewn unrhyw iaith ar wahân i Saesneg, y byddai'r practis yn ceisio hwyluso hyn, gan gynnwys drwy ddefnyddio llinell iaith ac adnodd cyfieithu ar-lein. Gallai perthnasau weithredu fel dehonglwyr hefyd pe byddai angen. Roedd y staff yn deall pwysigrwydd siarad â'r cleifion yn eu dewis iaith er mwyn cefnogi gofal iechyd da.

Er nad oedd unrhyw aelod o'r staff yn siarad Cymraeg ar adeg yr arolygiad, cawsom wybod bod y ddeintyddfa yn ymchwilio i gynnal hyfforddiant Cymraeg ac y byddai'n cael ei gynnig i staff lle y bo'n bosibl. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn ymwybodol o'r 'Cynnig Rhagweithiol', ond ni cawsom sicrwydd fod y cleifion yn gwybod y gallent bob amser ddewis yr iaith yr oeddent yn ei siarad yn ystod eu hapwyntiad.

**Rhaid i'r darparwr cofrestredig roi trefniadau ar waith i ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' effeithiol i gleifion a rhoi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith.**

Gwelsom fod gwybodaeth ar gael i gleifion mewn print bras a fersiynau hawdd eu deall. Roedd modd i unrhyw un ag amhariad ar y golwg addasu maint y ffont ar y wefan.

Er mwyn darparu ar gyfer cleifion heb fynediad i ddyfais ddigidol, gallai cleifion drefnu apwyntiadau dros y ffôn, neu wyneb yn wyneb yn y practis. Dywedwyd wrthym fod llythyron yn cael eu hanfon ar gyfer apwyntiadau dilynol lle nad oedd rhif ffôn symudol na chyfeiriad e-bost ar gael.

### **Hawliau a Chydraddoldeb**

Gwnaethom edrych ar y polisiau yn y practis a nodwyd gennym fod polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth a pholisi cyfle cyfartal cynhwysfawr ar waith a oedd yn cyfeirio at Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Cyflwynwyd enghreifftiau o'r ffordd roedd y practis yn trin pob claf a phob aelod o'r staff yn gyfartal, gan gynnal eu hawliau. Roedd yr enghreifftiau yn cynnwys darparu ar gyfer cleifion â phroblemau symudedd. Dywedodd y staff deintyddol wrthym fod blwch gwybodaeth ychwanegol hefyd ar system nodiadau'r cleifion er mwyn sicrhau bod cleifion sydd ag unrhyw anghenion ychwanegol, nodweddion gwarchoddedig, neu ddewisiadau rhagenw/rhywedd yn cael eu cefnogi'n briodol.

Roedd grisiau a ramp i gyrraedd y practis, ac roedd ramp symudol ychwanegol ar gael ar gyfer stepen fach wrth ddrws y practis. Roedd pobl sy'n defnyddio cadair olwyn yn gallu cael mynediad i'r dderbynfa, yr ardal aros fawr, y deintyddfeydd a thoiled ar gyfer pobl anabl ar y llawr gwaelod.

Nododd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur (19/21) eu bod wedi gallu cael gafael ar y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir (ni waeth beth fo'u hoedran, anabledd, statws ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol). Nododd un claf nad oedd wedi gallu gwneud hynny ac roedd yn well gan un claf a ymatebodd beidio â dweud.

Er i bron pob claf a atebodd ddweud nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu (20/21) wrth ddefnyddio'r practis hwn, yn anffodus, nododd un claf ei fod wedi cael profiad o wahaniaethu, gan 'arall' o'r rhestr categorïau gwahaniaethu. Gwnaeth y sylw canlynol:

*“Rwy'n cael fy nhrin yn waeth fel un o gleifion y GIG”*

Rhaid i'r practis ystyried y sylw uchod, ochr yn ochr â'r ymatebion eraill gan gleifion er mwyn sicrhau mynediad cyfartal i bawb.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

### Rheoli Risg

Roedd y practis yn gymharol fawr ac wedi'i osod dros bedwar llawr, yr oedd tri ohonynt yn hygyrch i'r cyhoedd. Roedd pob ardal i gleifion mewn cyflwr derbyniol. Roedd teils carped ar y grisiau ac roedd lloriau lamineiddiedig ym mhob deintyddfa ac ardal aros.

Roedd yr adeilad wedi'i oleuo'n dda, ac roedd yr arwyddion a'r gwres yn dderbyniol. Roedd modd agor y ffenestri allanol ac roedd y practis yn cael ei awyru'n ddigonol hefyd. Cawsom wybod fod cynlluniau ar waith i ailbaentio waliau'r llawr gwaelod. Nodwyd bod rhai carpedi wedi rhaflio yn ardal y staff. Fodd bynnag, ar y cyfan, roedd yn amgylchedd glân a chroesawgar ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg.

**Rhaid i'r darparwr cofrestredig atgyweirio neu newid y carped sydd wedi rhaflio yn ardal y staff er mwyn sicrhau y caiff iechyd, llesiant a diogelwch pob aelod o'r staff eu cynnal.**

Gwelsom asesiadau risg cynhwysfawr ar gyfer diogelwch tân, iechyd a diogelwch a'r amgylchedd. Er mai corff proffesiynol wnaeth gynnal yr asesiadau risg tân yn 2011, cynhaliwyd asesiadau risg pellach gan ddefnyddio adnodd asesu yn 2014. Fodd bynnag, cyfeiriwyd at adolygiad yn 2018 a oedd wedi'i deipio. Nododd yr adolygiad blynyddol o asesiadau risg fod yr asesiad risg wedi'i adolygu ac na wnaed unrhyw newidiadau ers hynny.

**Rhaid i'r darparwr cofrestredig gynnal asesiad risg tân cyfredol gan ddefnyddio adnodd ar-lein neu gorff proffesiynol a darparu tystiolaeth o'r asesiad hwnnw i AGIC.**

Gwelsom fod cwmni proffesiynol yn cynnal archwiliadau blynyddol o'r diffoddwyr tân. Roedd y practis yn cynnal archwiliadau misol o'r diffoddwyr tân a'r goleuadau argyfwng ac roedd archwiliadau wythnosol yn cael eu cynnal o'r larymau tân. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant digonol.

Roedd cynllun parhad busnes ar waith, a pholisi wrth gefn brys yn rhestru'r gweithdrefnau i'w dilyn pe na fyddai modd cynnig yr ystod lawn o wasanaethau yn sgil digwyddiadau fel cyfarpar yn methu, llifogydd neu system yn methu. Roeddent yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol.

Gwelsom hefyd fod yswiriant atebolrwydd y cyflogwr ac yswiriant atebolrwydd cyhoeddus wedi'u trefnu a oedd yn cynnig lefel yswiriant dderbyniol.

### **Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi**

Gwelsom fod polisiau a gweithdrefnau cyfredol ar waith mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau a dihalogi. Roedd y tîm deintyddol yn gallu disgrifio'r trefniadau rheoli heintiau sydd ar waith yn y practis a gwelsom amserlenni glanhau i brofi hyn, a oedd yn cael eu cwblhau'n briodol.

Gwnaethom arolygu pob deintyddfa yn y practis. Roedd cyflenwad da o stoc ym mhob un, roeddent yn ymddangos yn lân ac nid oedd unrhyw annibendod. Roedd biniau gwaredu offer miniog ar gael ym mhob deintyddfa. Roeddent yn cael eu llofnodi, eu dyddio a'u storio'n briodol. Gwelsom fod contractau ar waith ar gyfer gwaredu gwastraff clinigol drwy ddarparwr allanol. Roedd gwastraff cyffredinol yn cael ei drefnu drwy'r cyngor lleol.

Roedd cadeiriau a chyfarpar y gellid eu sychu'n lân yn y dderbynfa a'r ardaloedd aros, gan gynnwys ardal aros y plant, a oedd yn golygu y gellid eu glanhau'n ddigonol.

Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo addas ar gael ym mhob deintyddfa ac ym mhob un o'r toiledau. Gwelsom fod posteri wedi'u harddangos ger pob sinc i hysbysu'r staff a'r cleifion am y dechneg gywir ar gyfer golchi eu dwylo yn effeithiol. Roedd hylif diheintio dwylo hefyd ar gael ym mhob rhan o'r practis i'r staff a'r cleifion ei ddefnyddio. Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael yn hwylus.

Roedd ystafell ddihalogi benodol gyda system briodol ar waith er mwyn cludo'r offer a oedd wedi'u defnyddio'n ddiogel o'r deintyddfeydd i'r ystafell ddihalogi. Cafodd y trefniadau ar gyfer glanhau a dihalogi offer deintyddol aml dro eu disgrifio a'u dangos. Roedd awtoclafau yn cael eu defnyddio'n ddiogel ac yn effeithiol gan yr aelodau perthnasol o staff. Gwnaethom edrych ar y cofnodlyfrau ac roeddent wedi'u cwblhau'n llawn. Gwelsom dystysgrifau arolygu gorfodol dan y cynllun cynnal a chadw. Roedd pob un ar gael ac yn cydymffurfio â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Roedd archwiliad diweddaraf WHTM ar waith hefyd, gyda chynllun gweithredu perthnasol, dyddiedig mis Mawrth 2023.

Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn, ac ni nodwyd unrhyw bryderon am lendid y gwasanaeth.

### **Rheoli Meddyginiaethau**

Gwelsom dystiolaeth fod polisi rheoli meddyginiaethau cynhwysfawr ar waith yn y practis. Roedd gweithdrefnau ar waith hefyd a oedd yn dangos sut i ymateb i



argyfyngau meddygol, sut i ymdrin â meddyginiaethau mewn ffordd ddiogel ac effeithiol, a sut i baratoi, rhoi a chofnodi meddyginiaethau.

Cawsom wybod bod dau ddeintydd dan gontract yn y practis yn cynnal prosesau tawelu ymwybodol, ond nid ymchwiliwyd yn fanwl i hyn fel rhan o'r arolygiad hwn. Fodd bynnag, cawsom sicrwydd pan oedd meddyginiaethau ar gyfer tawelu ymwybodol yn cael eu symud, bod taflen gofnodi yn cael ei chwblhau drwy nodi enw a llofnod yr unigolyn a oedd yn symud y feddyginiaeth.

Archwiliwyd pob eitem o gyfarpar brys a phob pecyn cymorth cyntaf. Roedd pob un yn cynnwys y cyfarpar priodol yn unol â'r canllawiau cyfredol. Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel ac mewn man hygyrch y gallai'r staff fynd ato'n hawdd pe bai argyfwng meddygol. Roedd systemau ar waith i archwilio'r cyffuriau brys er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn barod i'w defnyddio, yn unol â'r safonau a bennwyd gan Gyngor Dadebru'r DU. Gwelsom gofnodion fod yr archwiliadau hyn yn cael eu cwblhau.

Dangoswyd tystiolaeth i ni fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol yn ddiweddar. Fodd bynnag, roedd y staff yn aros i'w tystysgrifau gyrraedd ar adeg yr arolygiad. Mae AGIC bellach wedi gweld y tystysgrifau hyn.

### **Diogelu Plant ac Oedolion**

Roedd gan y practis bolisi diogelu cyfredol, a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth ddisgwyliedig i hybu ac amddiffyn llesiant a diogelwch plant ac oedolion a oedd yn agored i niwed neu'n wynebu risg. Roedd siart lif glir i'r staff ei dilyn pe byddent yn amau unrhyw achosion o gam-drin neu esgeuluso. Roedd y dogfennau hyn hefyd yn cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol.

Roedd arweinydd diogelu enwebedig ar gyfer y practis, ac roedd hyn wedi'i nodi ym mholisi diogelu'r practis. Er bod y siart lif yn bodoli, nid oedd copi ohoni ym mhob deintyddfa nac ar y byrddau arddangos drwy'r practis.

**Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y siart lif diogelu yn cael ei harddangos mewn safle amlwg ym mhob deintyddfa ac yn yr ardaloedd staff eraill.**

Cawsom wybod gan reolwr y practis fod pob aelod o'r staff wedi cael gwiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac wedi ymgymryd â lefel briodol o hyfforddiant ar ddiogelu. Gwelsom dystiolaeth o dystysgrifau hyfforddiant diogelu cyfredol a thystysgrif ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a oedd yn cadarnhau bod datgeliadau manylach wedi'u cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff.

## **Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol**

Gwelsom fod y cyfleusterau clinigol yn cynnwys yr holl gyfarpar priodol i sicrhau diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol. Gwelsom hefyd fod y deintyddfeydd yn drefnus, yn lân ac yn daclus.

Roedd y staff wedi cael hyfforddiant i sicrhau bod cyfarpar yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel a gwnaethom gadarnhau hyn drwy edrych ar ffeiliau'r staff. Dangosodd ein harsylwadau o'r cyfarpar clinigol fod popeth yn ddiogel ac mewn cyflwr da.

Dangosodd y staff sut y byddent yn mynd ati i lanhau a diheintio'r cyfarpar yn unol â'r canllawiau ar atal a rheoli heintiau rhwng pob claf. Gwnaethom edrych ar y trefniadau sydd ar waith er mwyn sicrhau bod y cyfarpar radiograffig yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel a gwelsom eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (IR(ME)R) (2017).

Nid oedd gwybodaeth yn cyfleu manteision a risgiau cysylltiadau i'r unigolyn wedi'i harddangos yn glir.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff gwybodaeth am fanteision a risgiau cysylltiadau ei harddangos yn glir.**

Roedd y ddogfennaeth a gawsom yn ystod ein hymweliad yn dangos bod trefniadau diogel ar waith yn y practis mewn perthynas â'r amgylchedd, gwaith cynnal a chadw a phrofi cyfarpar pelydr-X. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod pob aelod o'r staff sy'n cynnal gweithdrefnau pelydr-X wedi cael hyfforddiant ardystiedig priodol.

Cawsom wybod nad oedd gofalwyr a chysurwyr yn cael eu defnyddio yn ystod archwiliadau pelydr-X. Fodd bynnag, roedd y practis yn gallu rhoi cyngor ar gyfyngiadau dosau a chanllawiau ar gysylltiadau i ofalwyr a chysurwyr pe byddai angen.

## **Effeithiol**

### **Gofal Effeithiol**

Yn ôl ein trafodaethau ag aelodau o'r staff, roedd yn amlwg eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â derbyn ac asesu cleifion, rhoi diagnosis iddynt a'u trin.

Roedd y practis yn defnyddio rhestrau gwirio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwthiol (LocSSIPs) i atal achosion o dynnu'r dannedd anghywir, a gwelsom fod y staff yn cael cyngor a chymorth proffesiynol gan Gymdeithas Ddeintyddol Prydain (BDA) 'Pro Dental' i sicrhau bod cleifion yn cael y gofal cywir a'r driniaeth gywir.

## **Cofnodion Cleifion**

Gwnaethom edrych ar gofnodion wyth claf a oedd wedi'u cadw ar ffurf ddigidol ar system rheoli cofnodion ddiogel y practis, yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) 2016. Roedd system 'gwmwl' wrth gefn a storfa cofnodion oddi ar y safle pe byddai eu hangen.

O'r cofnodion a welwyd, roedd rhai yn gyfamserol ac yn cynnwys hanes deintyddol, rheswm dros bresenoldeb, manylion sgrinio'r risg o ganser, cofnod yfed alcohol a smygu ymhlith meini prawf eraill. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd hanes meddygol y cleifion bob amser yn cael ei gydlofnodi. Yn ogystal, nid oedd dewis na dymuniadau iaith y claf byth yn cael eu cofnodi. Gwelsom hefyd nad oedd canfyddiadau clinigol rhai radiograffau yn cael eu cofnodi ac nad oedd opsiynau triniaeth bob amser yn cael eu trafod.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion cleifion cywir a chynhwysfawr eu cadw bob amser.**

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff anghenion iaith a chyfathrebu cleifion eu cofnodi.**

## **Effeithlon**

### **Effeithlon**

Gwelsom fod trefniadau digonol ar waith i sicrhau y gellir symud yn effeithiol drwy lwybrau trin. Gwelsom fod nodiadau atgyfeirio clir yn cael eu gwneud gan yr hylenydd, y therapyddion a'r deintyddion drwy borth ar-lein.

Roedd tystiolaeth o slotiau apwyntiadau penodedig bob dydd i gleifion yr oedd angen gofal deintyddol brys arnynt. Roedd system ar waith hefyd er mwyn gallu cynnig apwyntiadau a oedd wedi cael eu rhyddhau gan fod cleifion wedi'u canslo i gleifion eraill. Gwelsom fod sesiynau clinig yn cael eu defnyddio'n effeithlon a bod nifer y clinigwyr a oedd ar gael yn ddigonol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn seiliedig ar nifer y cleifion.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Arweinyddiaeth

### Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Roedd tystiolaeth o drefniadau arweinyddiaeth da ym Mhractis Deintyddol Woods ac roedd strwythur rheoli addas ar waith a oedd yn cynnwys llinellau adrodd clir. Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd, gyda chymorth dau brif ddeintydd. Yn ogystal, roedd tîm deintyddol llawn a oedd yn cynnwys hylenwyr deintyddol, nyrsys deintyddol a staff gweinyddol.

Roedd enwau'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis ynghyd â'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos yn glir wrth fynedfa'r practis.

O'r trafodaethau a gynhaliwyd, nodwyd gennym fod y staff yn wybodus am eu rolau a'u cyfrifoldebau. Dywedodd pob aelod o'r staff ei fod yn gweithio o fewn ei faes ymarfer. Roedd yn ymddangos fod cydberthnasau da rhwng y staff a gwelsom fod y tîm yn cydweithio'n dda.

Gwelsom fod cyfarfodydd ffurfiol yn cael eu cynnal ar gyfer y practis cyfan a bod cyfarfodydd tîm unigol yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Roedd cofnodion cynhwysfawr, a oedd yn dilyn agenda benodol, yn cael eu cymryd ac yn cael eu rhannu â'r staff. Roedd hyn yn sicrhau bod cofnod llawn o'r trafodaethau a gynhaliwyd ar gael i'r rhai hynny nad oeddent yn bresennol.

Roedd y polisiâu y gwnaethom edrych arnynt yn gynhwysfawr ac yn cael eu diweddarau'n rheolaidd er mwyn sicrhau gwasanaeth diogel o ansawdd i gleifion. Gwnaethom siarad ag aelodau amrywiol o staff er mwyn cadarnhau eu bod yn ymwybodol o bolisiâu'r practis a ble i ddod o hyd iddynt. Roedd pob aelod o'r staff yn gallu cadarnhau eu bod ar gael ar y gyriant electronig a rennir ac ar ffurf copi caled yn swyddfa rheolwr y practis. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod system atgoffa ar waith i'w atgoffa fis cyn dyddiad adolygu pob polisi er mwyn sicrhau bod pob polisi yn cael ei adolygu mewn modd amserol.

## Y Gweithlu

### Gweithlu Medrus a Galluog

Gwnaethom siarad â rheolwr y practis er mwyn trafod y broses ar gyfer recriwtio staff newydd. Gwelsom bolisiâu a oedd yn amlinellu'r broses a ddefnyddir i recriwtio ac i gefnogi'r broses o gyflogi a sefydlu staff.

Rhoddodd rheolwr y practis ffeiliau'r staff i ni fwrw golwg drostynt. Roedd yr holl ddogfennaeth ofynnol wedi'i chynnwys yn ffeiliau pob aelod o'r staff. Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod yr archwiliadau cyflogaeth priodol yn cael eu cynnal. Roedd y rhain yn cynnwys gwirio geirdaon, indemniad proffesiynol, gwiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a hanes cyflogaeth llawn.

Gwelsom raglen sefydlu gynhwysfawr a gwnaethom adolygu matrices hyfforddiant y practis a oedd yn cadarnhau bod pob aelod o'r staff yn cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol. Yn ogystal, gwelsom dystysgrifau ategol i gadarnhau cydymffurfiaeth.

Dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff yn cael ei annog i wella ei sgiliau a bod gan bob aelod o staff cymwysedig gylch datblygiad proffesiynol parhaus er mwyn sicrhau bod ei sgiliau a'i wybodaeth yn parhau i fod yn gyfredol. Roedd gan bob aelod o'r staff gynllun hyfforddiant, ni waeth beth oedd hyd ei wasanaeth. Gwnaethom nodi hefyd fod hyfforddiant yn eitem reolaidd ar agenda'r cyfarfodydd misol.

Gwelsom dystiolaeth, lle y bo'n berthnasol, fod arfarniadau blynyddol y staff yn gyfredol. Os oedd aelodau o staff wedi bod yn eu swydd am lai na 12 mis, cawsom wybod fod sesiynau goruchwyllo a sesiynau trafod rheolaidd yn cael eu cwblhau yn lle arfarniad blynyddol, hyd nes y byddai'n bryd cynnal arfarniad blynyddol.

## Diwylliant

### Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu

Disgrifiodd rheolwr y practis y trefniadau ar gyfer gofyn am adborth gan y cleifion am eu profiadau o ddefnyddio'r practis a'r weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion.

Dywedwyd wrthym y gallai'r cleifion adael adborth ar lafar, yn ysgrifenedig neu ar-lein. Roedd pob cwyn yn cael ei chydabod o fewn tridiau ac roedd y practis yn anelu at ymateb yn llawn o fewn 30 diwrnod, lle y bo'n bosibl.

Gwelsom fod gweithdrefnau cwyno ysgrifenedig ar wahân ar waith ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat. Roedd y rhain yn cael eu harddangos wrth fynedfa'r practis ac yn nodi amseroedd amser disgwylidig a manylion sefydliadau eraill sydd ar gael i roi help a chefnogaeth, er enghraifft y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus. Fodd bynnag, nodwyd gennym mai dim ond ar y broses gwyno i gleifion preifat roedd AGIC wedi'i rhestru ac nad oedd wedi'i rhestru ar y broses i gleifion y GIG. Ymdriniwyd â hyn yn ystod yr arolygiad.

O blith yr ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC, roedd llawer (17/20) yn cytuno eu bod wedi cael gwybodaeth am sut y byddai'r practis yn datrys unrhyw

bryderon neu gwynion ar ôl triniaeth. Nid oedd un ohonynt yn cytuno nac yn anghytuno ac roedd un wedi gadael y cwestiwn yn wag. Fodd bynnag, roedd dau yn 'anghytuno' neu'n 'anghytuno'n gryf' â'r datganiad.

**Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob claf yn cael gwybodaeth am sut y byddai'r lleoliad yn datrys unrhyw bryderon neu gwynion ar ôl triniaeth.**

Gwelsom y ffeil cwynion, a oedd yn cael ei chynnal gan reolwr y practis. Roedd yn cynnwys yr holl wybodaeth y byddem yn ei disgwyl o dan y rheoliadau. Dywedwyd wrthym y byddai cwynion yn cael eu dadansoddi er mwyn nodi themâu cyffredin. Fodd bynnag, gan fod cyn lleied ohonynt, nid oedd modd dod i unrhyw gasgliad. Er gwaethaf hyn, roedd yr holl wersi i'w dysgu o ddiwyddiadau yn cael eu rhannu â'r staff a gwelsom dystiolaeth o hyn yng nghofnodion cyfarfodydd.

Gwelsom fod polisi Dyletswydd Gonestrwydd ar waith yn y practis a oedd yn cael ei adolygu'n rheolaidd ac a oedd yn cydymffurfio â'r canllawiau newydd. Roedd pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'i ddyletswyddau ac roedd y staff clinigol wedi cael hyfforddiant. Roedd y practis yn bwriadu cyflwyno'r hyfforddiant hwn i bob aelod o'r staff yn ystod y misoedd nesaf. Gwelsom ddwy enghraifft ar ffeil lle y bu angen y Ddyletswydd Gonestrwydd ac roedd y camau a gymerwyd yn briodol ac yn unol â'r disgwyliadau. Roedd y broses uwchgyfeirio gan reolwr y practis i'r prif ddeintyddion er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol bod y Ddyletswydd Gonestrwydd wedi codi yn briodol.

**Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod hyfforddiant Dyletswydd Gonestrwydd yn cael ei gwblhau gan bob aelod o'r staff a rhaid rhoi tystiolaeth o hyn i AGIC.**

Mewn perthynas ag adborth, roedd y practis yn gofyn am adborth ar ddiwedd y neges e-bost ddilynol. Roedd cleifion hefyd yn cael eu hannog i rannu eu profiad ar wahanol lwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Gwnaethom nodi nad oedd blychau awgrymiadau yn y practis ac ni welsom dystiolaeth i ddangos bod canlyniadau adborth yn cael eu rhannu â chleifion.

**Rhaid i'r darparwr cofrestredig roi proses tebyg i hysbysfwrdd 'dywedoch chi, gwnaethom ni' ar waith er mwyn rhoi gwybod i'r cleifion am ganlyniadau'r adborth a'u hannog i barhau i gymryd rhan wrth geisio gwella'r practis.**

## **Gwybodaeth**

### **Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Ddigidol**

Gwelsom fod systemau ar waith a oedd yn sicrhau bod data a gwybodaeth yn cael eu casglu, eu rhannu a'u cofnodi'n effeithiol. Roedd polisiau a gweithdrefnau amrywiol ar waith gan gynnwys polisi Rhyddid Gwybodaeth a GDPR.

Roedd gan y practis system ar waith i gofnodi digwyddiadau yn ymwneud â diogelwch cleifion, ac roedd hefyd yn rhoi gwybod i gyrff allanol fel y GIG amdanynt ac yn cymryd camau dilynol priodol. Roedd gwybodaeth a oedd yn gysylltiedig â diogelwch cleifion yn cael ei rhannu ag aelodau'r tîm mewn modd priodol a dywedwyd wrthym y byddai'r practis yn rhoi gwybod i'r GIG am bob achos o ymddygiad ymosodol a phob achos o wrthod trin cleifion y GIG.

## **Dysgu, Gwella ac Ymchwil**

### **Gweithgareddau Gwella Ansawdd**

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i lywodraethu gweithgareddau gwella ansawdd. Gwelsom dystiolaeth fod archwiliadau clinigol rheolaidd yn cael eu cynnal. Gwelsom fod archwiliad cadw cofnodion, archwiliad rhoi'r gorau i smygu, archwiliad WHTM-01-05 ac archwiliad pelydr-X digidol oll wedi cael eu cwblhau yn ystod y misoedd diwethaf. Roedd y camau gweithredu yn deillio o'r archwiliadau hyn wedi cael eu cwblhau ac roedd unrhyw wersi i'w dysgu wedi cael eu rhannu â'r staff.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn aelod o Gynllun Arferion Da Cymdeithas Ddeintyddol Prydain a'i fod yn defnyddio adnoddau hyfforddi gwella ansawdd fel yr Adnodd Hunanwerthuso ar gyfer Optimeiddio Sgiliau (SOSET) trwy Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC). Roedd yr holl wersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu â'r staff yn ystod cyfarfodydd a sesiynau dal i fyny.

## **Dull Systemau Cyfan**

### **Gweithio mewn Partneriaeth a Datblygu**

Gwnaethom drafod y trefniadau a oedd ar waith i'r practis ymgysylltu â phartneriaid sy'n rhan o'r system, er enghraifft gofal eilaidd a systemau rheoli ansawdd allanol a oedd yn cefnogi gwelliannau wrth ddarparu gwasanaeth o ansawdd. Dywedwyd wrthym fod trefniadau da ar waith rhwng y practis a gwasanaethau gofal eilaidd, a gwasanaethau'r awdurdod lleol fel y tîm diogelu. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod y practis yn edrych ar system fesur y GIG yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd targedau'r GIG.

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.



# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** Practis Deintyddol Woods

**Dyddiad yr arolygiad:** 24 Hydref 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

# Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Woods

Dyddiad yr arolygiad: 24 Hydref 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Adborth cleifion o arolwg AGIC.	Rydym yn argymhell y dylai'r darparwr cofrestredig ystyried y sylwadau a gafwyd gan gleifion er mwyn helpu i wella profiad y claf.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 16(b)(ii)	Dim ond sampl fach o'r adborth a gasglwyd gan AGIC a gawsom. Rydym yn anelu bob amser at ddadansoddi adborth gan gleifion a gwneud gwelliannau lle bo angen a lle y bo'n bosibl. Os gall/os bydd AGIC yn rhoi mwy o'r adborth gan gleifion i ni, gallwn ei ddadansoddi a gwneud newidiadau yn unol â hynny.	Rachel Tetiu	wedi'i gwblhau

			Rydym yn trafod y gwersi a ddysgwyd o adborth gan gleifion, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, yn ystod cyfarfodydd y practis. Caiff cofnodion o'r cyfarfodydd hyn eu dogfennu a'u storio.		
<b>Nid oedd unrhyw ddeunydd hybu iechyd dwyieithog ar gael yn y practis.</b>	Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried ehangu'r dewis o wybodaeth sydd ar gael, gan roi sylw i anghenion cyfathrebu a dymuniadau'r cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth.	Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2011  Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 13(1)(a)  Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn - Teg	Byddwn yn ymdrechu i ddarparu deunydd hybu iechyd dwyieithog lle caiff deunydd o'r fath ei gynhyrchu gan gyrff/cwmnïau perthnasol.	Rachel Tetiu	3 mis
<b>Roedd ffenestri gwyrdd clir mawr yn ardal y dderbynfa yn rhan flaen yr adeilad a oedd yn</b>	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff preifatrwydd ac urddas eu gwarchod cyn belled ag y	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 15 (1)	Rydym yn deall pwysigrwydd gwarchod preifatrwydd ac urddas. Nid ydym	Rachel Tetiu	3 mis

<p><b>golygu bod modd i bobl a oedd yn mynd heibio weld cleifion yn yr ardal aros ar y llawr gwaelod. Nid oedd hyn yn gwarchod preifatrwydd ac urddas y cleifion.</b></p>	<p>bo'n rhesymol ymarferol. Rhaid ystyried gosod gwydr preifatrwydd yn ffenestri ardal y dderbynfa yn unol ag argymhellion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.</p>		<p>erioed wedi cael unrhyw sylwadau negyddol. Ar y cyfan, mae'r cleifion yn nodi eu bod yn hoffi ardal aros olau ac agored.</p> <p>Gan fod yr arolygwyr wedi ein cynghori i newid hyn, byddwn yn gosod gorchudd barugog ar y ffenestri.</p>		
<p><b>Ni chawsom sicrwydd fod y cleifion yn cael cynnig dewis o ran pa iaith yr hoffent iddi gael ei defnyddio wrth dderbyn eu triniaethau.</b></p>	<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig roi trefniadau ar waith i ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' effeithiol i gleifion a rhoi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith'.</p>	<p>Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2011</p> <p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 13 (1)(a)</p>	<p>Byddwn yn hyfforddi ein staff ar egwyddorion y Cynnig Rhagweithiol. Byddwn yn cynnig dewis iaith i'n cleifion ac yn dogfennu'r dewis yn y nodiadau.</p> <p>Rydym wedi cysylltu â'r llinell iaith a gall gynnig cyfieithydd Cymraeg ond dim ond</p>	<p>Rachel Tetiu</p>	<p>2 fis</p>

			drwy wneud apwyntiad ymlaen llaw.		
<p><b>Adborth cleifion o arolwg AGIC mewn perthynas â wynebu gwahaniaethu wrth gysylltu â'r practis neu ei ddefnyddio. Nododd un claf ei fod wedi cael profiad o wahaniaethu, gan ddewis 'arall' o'r rhestr categorïau gwahaniaethu. Darparodd y claf sylwadau.</b></p>	<p>Rhaid i'r practis ystyried sylw'r claf, ochr yn ochr ag ymatebion eraill gan gleifion er mwyn sicrhau mynediad cyfartal i bawb.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 16(b)(ii)</p>	<p>Rydym yn anelu bob amser at ddadansoddi adborth gan gleifion a gwneud gwelliannau lle bo angen a lle y bo'n bosibl.</p> <p>Yn yr achos penodol hwn, mae'r adborth yn ddienw, sy'n ei gwneud hi'n anodd casglu rhagor o fanylion o ran pam mae'r claf yn teimlo fel hyn. Mae'r adborth yn cynnwys sawl honiad ffug y gellir darparu tystiolaeth yn eu cylch ac yr ydym wedi'u hesbonio i AGIC.</p> <p>Ond mae'n bwysig ein bod yn ceisio deall safbwyntiau'r claf yn hyn o beth er mwyn</p>	<p>Rachel Tetiu</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

			<p>penderfynu a oes angen i ni newid y ffordd rydym yn cyfleu gwasanaethau i'n cleifion.</p> <p>Rydym yn cymryd unrhyw adborth o ddifrif, ac rydym yn parhau i annog unigolion i roi adborth er mwyn gwella gwasanaethau.</p>		
<p><b>Nodwyd bod carped wedi rhaflio yn ardal y staff. Gallai hyn achos perygl baglu i'r staff.</b></p>	<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig atgyweirio neu newid y carped sydd wedi rhaflio yn ardal y staff er mwyn sicrhau y caiff iechyd, llesiant a diogelwch pob aelod o'r staff eu cynnal.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 22(2)(b)</p>	<p>Byddwn yn gosod gorchudd llawr newydd yn yr ardal dan sylw.</p>	<p>Rachel Tetiu</p>	<p>Bydd yn dibynnu pryd y bydd y contractwr ar gael, ond byddwn yn anelu at gwblhau'r gwaith o fewn 2-3 mis.</p>

<p>Roedd asesiadau tân ar waith, ond roedd y fersiynau diweddaraf wedi'u cynnal gan y practis yn hytrach na thrwy ddefnyddio corff proffesiynol neu adnodd ar-lein.</p>	<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig gynnal asesiad risg tân cyfredol gan ddefnyddio adnodd ar-lein neu gorff proffesiynol a darparu tystiolaeth o'r asesiad hwnnw i AGIC.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 22(4)(f)</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>		<p>Wedi'i gwblhau</p>
<p>Roedd siart lif diogelu ar waith ond nid oedd yn cael ei harddangos yn amlwg i'r staff ei gweld.</p>	<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff y siart lif diogelu ei harddangos mewn lle amlwg ym mhob ystafell glinigol ac ardaloedd eraill i'r staff.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 14(1)(a), (e) a Rheoliad 14(2)</p>	<p>Mae siartiau llif diogelu ar gael (ac roeddent ar gael adeg yr arolygiad) i bob aelod o'r staff ar y OneDrive a rennir y mae gan bawb fynediad iddo ar y cyfrifiadur yn ardal pob deintyddfa/y dderbynfa ac mae copi papur ar gael mewn ffolder, yn eu man gwaith. Mae'r siart lif hefyd wedi'i gosod yn ardal y staff ers yr arolygiad.</p>		<p>Wedi'i gwblhau</p>



<p><b>Nid oedd risgiau a manteision cysylltiadau pelydr-X yn cael eu harddangos yn amlwg.</b></p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff gwybodaeth am fanteision a risgiau cysylltiadau ei harddangos yn gliriach.</p>	<p>Rheoliad 13(9)(a) - Ansawdd y driniaeth a'r gwasanaethau eraill a ddarperir</p> <p>Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017</p>	<p>Cafodd gwybodaeth ei lamineiddio a'i gosod yn y ddwy ardal aros. Mae fersiwn bapur hefyd ar gael yn ardal pob deintyddfa/y dderbynfa, yn ogystal â'r OneDrive a rennir.</p>		<p>Wedi'i gwblhau</p>
<p><b>Wrth edrych ar gofnodion y cleifion, nodwyd bod gwybodaeth ar goll.</b></p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion cleifion cywir a chynhwysfawr eu cadw bob amser.</p> <p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff anghenion iaith a chyfathrebu cleifion eu cofnodi.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 20(1)(a)(i)(ii)</p> <p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 13(1)(a)</p> <p>Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Effeithiol - Cadw cofnodion</p>	<p>Byddwn yn cynnal cyfarfod â'r clinigwyr i drafod hyn. Rydym yn anelu at ddarparu nodiadau sy'n cyrraedd safonau FGDP bob amser. Byddwn yn cynnwys anghenion iaith a chyfathrebu.</p> <p>Bydd archwiliad rheolaidd yn cael ei gynnal er mwyn sicrhau bod safonau yn cael eu cynnal.</p>		<p>2 fis</p>

<p><b>Roedd adborth cleifion yn dangos nad oedd pob claf yn gyfarwydd â'r broses gwyno.</b></p>	<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob claf yn cael gwybodaeth am sut y byddai'r lleoliad yn datrys unrhyw bryderon neu gwynion ar ôl triniaeth.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 -  Rheoliad 21(1) Atodlen 1(10) Atodlen 2(1)(f)</p>	<p>Mae gweithdrefn gwyno'r practis ar gael ar brif hysbysfwrdd y practis, ar wefan y practis a chaiff bob amser ei hanfon drwy e-bost/post at gleifion fel y bo'n berthnasol pan geir cwyn</p>	<p>Rachel Tetiu</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
<p><b>Dywedwyd wrthym nad oedd pob aelod o'r staff gweinyddol wedi cael hyfforddiant Dyletswydd Gonestrwydd.</b></p>	<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod hyfforddiant Dyletswydd Gonestrwydd yn cael ei gwblhau gan bob aelod o'r staff a rhaid rhoi tystiolaeth o hyn i AGIC.</p>	<p>Rheoliadau Dyletswydd Gonestrwydd (Cymru) 2023 - Rheoliad 8 (2)(a)(b) ac (c)  Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 17(3)(a)</p>	<p>Mae'r staff wrthi'n ymgymryd â'r hyfforddiant ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf ohonynt eisoes wedi'i gwblhau. Bydd pob tystysgrif yn cael ei darparu fel tystiolaeth ar ôl cwblhau'r hyfforddiant.</p>		<p>2 fis</p>
<p><b>Nid oedd canlyniadau adborth nac unrhyw welliannau a wnaed o ganlyniad wedi'u harddangos yn y practis.</b></p>	<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig roi proses tebyg i hysbysfwrdd 'dywedoch chi, gwnaethom ni' ar waith er mwyn rhoi gwybod i'r</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 16</p>	<p>Byddwn yn rhoi hysbysfwrdd 'dywedoch chi, gwnaethom ni' ar waith fel yr awgrymwyd.</p>		<p>3 mis</p>

	cleifion am ganlyniadau'r adborth a'u hannog i barhau i gymryd rhan wrth geisio gwella'r practis.				
--	---	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau): Rachel Tetiu**

**Teitl swydd: Rheolwr y Practis**

**Dyddiad: 27 Rhagfyr 2023**